



Ein cyf/Our ref VG/10108/20

Janet Finch-Saunders AS
Cadeirydd, Y Pwyllgor Deisebau

19 Ionawr 2021

Annwyl Janet,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 21 Rhagfyr ynglŷn â *Deiseb P-05-1070 - Dylid cynghori pawb yng Nghymru sy'n eithriadol o agored i niwed, neu a fu'n cysgodi gynt, i aros gartref yn hytrach na mynd i'r gwaith yn ystod cyfnodau pan fo lefel uchel o haint COVID-19 yn y gymuned.*

Ar 22 Rhagfyr, cyhoeddais ddatganiad ar gyfer yr aelodau yn dweud bod newid i'r cyngor a roddir i'r grŵp hwn. O'r dyddiad hwnnw, tan o leiaf 7 Chwefror, cynghorir y grŵp hwn i beidio â mynd i'r gwaith nac i safle ysgol y tu allan i'r cartref. Gwneuthum y penderfyniad hwn mewn ymateb i'r ffaith bod y cyfraddau heintio yn cynyddu yn ein cymunedau, a'r tebygolrwydd bod hyn yn digwydd oherwydd amrywiolyn newydd y feirws.

<https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-cyngor-newydd-ir-rhai-syn-eithriadol-o-agored-i-niwed-yn-glinigol-y-cynllun>

Eisoes mae trefniadau adrodd ar waith i'r rheini nad ydynt yn credu bod iechyd a diogelwch yn cael eu hystyried mewn modd priodol yn eu gweithle. Nid yw'r trefniadau hynny'n benodol ar gyfer yr ymateb i COVID-19. Yn y rhan fwyaf o achosion, yr awdurdod lleol yw'r cyswllt mwyaf priodol ar gyfer uwchgyfeirio'r mater iddo, er y gallai fod angen uwchgyfeirio rhai achosion at yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mewn achosion lle mae gan bobl bryderon am eu hiechyd a diogelwch yn y gwaith, byddem yn cynghori y dylid cael sgwrs uniongyrchol â'r cyflogwr yn y lle cyntaf. Gallai fod yn ddefnyddiol cynnwys cynrychiolydd o undeb llafur mewn trafodaethau o'r fath. Gall yr unigolyn gael rhagor o gyngor ar ei hawliau cyflogaeth yn <https://www.acas.org.uk/>

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink that reads "Vaughan Gething". The signature is written in a cursive, flowing style.

Vaughan Gething AS/MS

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services